C 1928

Cyfres Llanbedr | Ionor, 1928. | Cyf. 28. Rhif 1.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. | Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Blwyddyn Newydd Dda i Chwi.
Crwydriadau'r Meddwl.
Pobl Adnabyddwn.
Cartrefi'r Enwad.
Symposium.
Urdd y Benywod.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o

"TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

Anfoner i SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

Foundation Scholarship Examination in March.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. IONOR, 1928. CYF. XXVIII. RHIF 1.

Blwyddyn Newydd Dda i chwi.

MAE Postmon Amser wrth ein drysau'n curo
A chanddo rai llythyron *ymyl ddu*,
A rhag eu cael yr ym yn anesmwytho—
Aneglur heddiw yw llawysgrif llu :
Plant ysgol eto ym fel 'slawer dydd
Yn ceisio spelian geiriau yma a thraw ;
Pwy ŵyr ai newydd da ai drwg y sydd
O'u mewn, ond down i wybod maes o law.
Silleber cerydd cariad gan afradlon,
A'i wahodd adref gaed y pell o'i wlad ;
Darllener hwynt bob gair ag ysbryd rhadlon—
Y mae pob llythyr yn llawysgrif Tad :
Ond cyn eu hagor fe ddymunaf i
Ar fod NEWYDDION DA O'U MEWN I CHWI.

Crwydriadau'r Meddwl.

GAN ANTHROPOS.

NOSON oer, rewllyd, ar ymylon y Nadolig. Ar awr hwyrol daeth y postman at y drws, gan estyn sypyn o lythyrau. Yn eu plith yr oedd cerdyn oddiwrth Olygydd parchus YR YMOFYNNYDD yn gofyn am ysgrif ar gyfer rhifyn Ionawr. Nid wyf yn euog o fod yn anufudd i alwadau'r YMOFYNNYDD, ac eto nis gallaf lai na synnu tipyn fod yr alwad yn para i ddod,

Atgofir fi gan awdurdodau diweddar ar iaith ac orgraff fy mod ym mhlith yr anffodusion fu mor rhyfygus ag ysgrifennu i'r wasg yn nyddiau tywyll yr oes o'r blaen. Rhyw gyfnod barbaraidd oedd hwnnw, ac nid oedd weledigaeth eglur gan neb.—Dim ond rhyw ymbalfalu fel deillion ar bared.

Bellach, tywynnodd goleuni mawr, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred. Yr hen bethau a aethant heibio, a gellid arall-eirio ychydig ar linellau Ceiriog,—

"A bugeiliaid newydd sydd."

Neu yn ol darlleniad arall—"A llenorion newydd sydd."

Ond prin y buasai'n briodol gorffen,—"Ar yr hen *fynyddoedd* hyn."

Nid ar y mynyddoedd y carant fod, ond yn hytrach ym mysg y "tan-ddaearolion bethau," a'u tiriogaeth dewisol ydyw'r "is-ymwybyddiaeth." Gan gofio na wn i, ac eraill o'm cyfoedion nemawr ddim am y dirgeledigaethau hyn, y mae'n rhyfedd, rywfodd, bod gwr *modern* fel Golygydd YR YMOFYNNYDD yn anturio anfon at un o weddillion yr "hen frigâd."

Dichon fod gan y gorffennol rywbeth i'w wneud a'r cais. Dechreuodd y gyfathrach lenyddol rhyngof a'r Cylchgrawn yn nyddiau'r cyn-olygydd. A'r hyn fu'n achlysur iddo ef sylwi ar fy ngwaith oedd y *Golofn Lenyddol* yn y *Faner*.

Ni chefais y fraint o ymweled a Llandysul yn ystod fy oes, ac ni welais y rhanbarth a gafodd ei llysenwi yn "Smotyn Du." Ond gwn er hynny fod pobl garedig yn byw yno. Ac fel praw, daw y digwyddiad a ganlyn i'm cof—

Yr oeddwn yn gwasanaethu mewn capel bychan yn perthyn i "enwad arall" yn y Brif-ddinas. Nos Sul ydoedd, ac ar gyfrif dieithrwch a gwendid corfforol, teimlwn yn eithaf digalon. Gofidiwn i mi fentro mynd o dawelwch gwlad i ganol berw Llundain, a chlychau'r *trams* ar fy nghlust yn ystod yr oedfa. Gwyddwn am frefiadau'r defaid a'r gwartheg ar y caeau cyfagos i gapel yn y wlad. Yr oedd y cyfryw seiniau yn cyd-gordio ag emyn y cysegr. Ond am glychau'r *trams* yn Llundain, y Nef a'm gwaredo rhag eu clywed byth mwy ar nos Saboth!

Ond ni fuaswn yn yngan gair am danynt, onibae i mi glywed rhywbeth gwahanol, a hwnnw yn llais melys, mwyn.

Yn y fynedfa, wrth i mi fynd allan o'r addoldy, safai lodes lygadlon, wridgoch, a chan nesu ataf, estynnodd ei llaw. Ac wedi ychydig funudau dywedodd fod ei thad wedi dymuno arni gyflwyno ei gofion i mi, os digwyddai weld fy enw yng nglyn a rhyw gapel Cymraeg yn Llundain.

"Yr wyf yn falch o glywed ei fod yn coledd teimlad felly tuag ataf. Dywedwch,—ym mhle y mae eich tad yn byw?"

Gwenodd hithau.

"Yn y 'Smotyn Du.'"

"Gwn am yr enw," atebwn, "ond yn sicr, nid ydyw y lle ei hun yn cyfateb i hwnnw. Ac i mi, ar ol heno, nid 'Smotyn Du,' a fydd, ond 'smotyn gwyn.' Yr oedd yn ddigon du a thywyll ar fy meddwl yn ystod y gwasanaeth, ond y mae *cofion* eich tad wedi dod a *gwynder* ar eu hedyn. Sut y mae eich tad, tybed, yn gwybod am danaf?"

"O, y mae nhad yn arfer darllen y *Faner* a'r Ymofynnydd."

Dyna'r esboniad.

Aeth y lodes hynaws i ffwrdd, a daeth dyn trwynsur ataf i gwyno nad oedd wedi clywed gair o'r bregeth!

"Na hidiwch ddim am hynny," ebwn wrtho,—"nid oedd nemawr ynddi oedd werth ei glywed."

Ond dal i ddwrdio yr oedd y brawd, a dweud y dylasai pob pregethwr feddu llais fel utgorn.

Aeth yntau i ffwrdd a chefais innau ffoi i'm llety nosawl. Ond wedi tynnu'r gadair at y tan, a chael "mygyn," deuai geiriau y lodes o'r "Smotyn Du" fel miwsig ar yr awel,—"Y mae nhad yn anfon ei gofion atoch."

Pethau o'r fath sydd yn troi y nos yn ddydd, a'r du yn wyn.

* * *

Yr oeddwn yn gwybod am Yr Ymofynnydd fel Cylchgrawn cyn yr adeg y dechreuais anfon rhyw dameidiau llenyddol i'w Olygydd. Ac yr wyf yn ddyledus am hynny, fel am lu o bethau eraill, i'r diweddar a'r annwyl Syr Owen Edwards—"O.M." y dyddiau dedwydd pan oeddym yng Ngholeg y Bala. Yr oeddwn yn digwydd cyd-deithio ag ef ryw fore Llun ar reilffordd y *Cambrian*, o dirion goffadwriaeth! Tren hamddenol, wedi ei ddarparu ar gyfer pobl lwythog, a difyr oedd teithio ynddo gyda glan y mor ar fore o haf. Gellid cael digon o amser i ymgomio, gan obeithio y cyrhaeddem ben ein siwrnai rywbryd cyn bore drannoeth.

"Welsoch chwi hwn?" ebe O.M., gan dynnu rhifyn o'r Ymofynnydd o'i ysgrepan.

"Naddo," ebwn innau.

"Wel, dyma gylchgrawn a graen lenyddol arno. Ac yn enwedig felly yr adran olaf bob mis—cofiannau byrion am frodyr a chwiorydd ymadawedig. Y maent yn batrwm o'r hyn y dylai cofiannau fod—yn gryno, ac yn flasus. Nid oes dim yr un fath a'r rhain mewn unrhyw gylchgrawn Cymraeg y gwn i am dano."

Hwyrach y synnai rhywrai ddeall fod "O.M." yn rhoddi pris mor fawr ar bethau a gyfrifir yn lleddf a galarus. Ceir dosbarth felly yn beirniadu *Trysorfa'r Plant* am fod gormod o le yn cael ei roddi ynddi i "farw-gofion." Ond yr oedd "O.M." yn wahanol. Ac yr oedd hynny yn fynegiad o'r elfennau tyner a serchog oedd yn ei galon ef ei hun.

Ac fel y cofia darllenwyr cynar *Cymru*—byddai ei adolygiadau ar gyhoeddiadau'r mis—Yr Ymofynnydd yn eu plith—yn ddiragfarn ac eangfrydig bob amser. Ni phetrusai ganmol pan gredai y dylesid gwneud hynny.

Y mae pethau wedi cyfnewid. Anffawd i gylchgrawn heddiw ydyw bod lliw "enwad" arno. Nid oes dim gwerth son am dano oni fydd ei safle yn "genedlaethol." Ond y mae darllennwyr yng Nghymru nad ydynt yn cael eu hud-ddenu gan broffes lydan, gan wybod mai yr hyn sydd *oddifewn* i'r cylchgrawn sydd yn rhoddi gwerth arno, ac nid y wisg ffasiynol fo am dano. Ac y mae doethineb ym mhob oes yn cael ei chyfiawnhau gan ei phlant ei hun.

Pobl a Adnabyddwn.

MEWN rhifyn blaenorol, ysgrifennais ychydig atgofion am Ddafydd Davis o'r Felinban. Fy mharch diffuant iddo a berodd imi wneud hynny. Bwriadwn ddilyn y llith hwnnw a nifer o lithoedd eraill ar gymeriadau a adnabyddwn, a edmygwn, ac a barchwn pan oeddwn blentyn; eithr gwanhaodd yr awydd i ysgrifennu, a rhoddais i fyny'r bwriad. Ni chollais lwyr olwg arno, fodd bynnag, ac arfaethwn afaelyd yn yr ysgrif-bin eilwaith pan fai'r hwyl i fyny. Dyma'r adeg wedi dod. Yr anhawster ydyw dewis y testun; daw cynifer ohonynt i'm cof—Dafydd Daniel o'r Caeglas; Jaci Abercerdinen; Jones, Aberaeron; Lewis, Felinfawr; "Pobl Sir Gar"; Jones o'r Neuadd (bu ef, wrth gwrs farw ymhell cyn imi weld goleu dydd gyntaf), ac eraill. Ni allaf wneud yn well na dilyn y drefn uchod; felly dechreuaf gyda

Dafydd Daniel o'r Caeglas.

Un o ddynion blaenllaw cymdogaeth Llanwnen yn y ddau chwarter canol o'r 19eg ganrif oedd Dafydd Daniel. Ganed ef tua'r flwyddyn 1798, a bu farw yn 1874 yn 76 oed. Saif y Caeglas tua hanner y ffordd rhwng pentref Llanwnen a thref Llanbedr. Gŵyr nifer luosog o'n darllenwyr am dano. Math ar balasty ar

raddfa fechan ydyw o ran ffurf ; diau yr ystyrrid ef yn balasty gorwych pan adeiladwyd ef gyntaf—yr oedd gymaint amgenach ty na thai eraill o'i gylch—nid yn aml y gwelid ei debig bryd hynny. Bythynnod llwyd, to gwellt oedd y rhan fwyaf o aneddau hyd yn ddiweddar iawn. Rhyfedd mor fawr y gwelliant yn hyn o beth yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf ! Y mae'r tai to gwellt ymron mynd allan o fod. Ymlaen yr a'r oes hyd yn oed yn y darpariaeth o dai. Eithr nid heb radd o hiraeth y sylwaf ar ddiflannu o'r hen dai to gwellt. Ar lawer ystyr, rhagorent ar y tai newydd presennol. Credaf eu bod yn fwy clyd ; a pherthynai iddynt ryw swyn rhyfeddol na pherthyn i'r tai mwy gorwych a ddaeth i lanw'u lle. Hynodid y Caeglas hefyd, ar gyfrif ei fod yn cael ei amgylchu (bron bob modfedd ohono) gan berth dew o eiddew. Y mae'r eiddew wedi'i dynnu ymaith er's blynyddoedd. Y mae gennyf frith gof imi glywed iddo gael ei adeiladu'n arbennig i Ddafydd Daniel gan Jones o'r Neuadd. Yr oeddynt ill dau yn gyfeillion mawr iawn. Enillodd Jones gryn enwogrwydd iddo'i hun fel meddyg esgyrn. Cyrchai pobl ato ymron o bob parth o Gymru—hyd yn oed o'r tu allan i Gymru mewn aml i achos. Bu'n llwyddiannus iawn yn ei grefft—anaml (os byth) yr ai neb ato gydag aelod wedi mynd o'i le neu asgwrn wedi torri nad ai oddiyno, nid yn holliach efallai, ond ar y ffordd i ddod yn holliach. Y mae yn fy meddiant gryn dipyn o'i hanes ; a chan y bwriadaf ysgrifennu llith neu ddwy arno ef, rhaid ymatal rhag ymhelaethu arno yn awr. Yr oedd Dafydd Daniel yn fath ar gynorthwywr iddo ; dywedir ei fod yn dra deheuig gydag aelodau amharedig neu esgyrn toredig. Dywedir, hefyd, yr arferai Jones ddanfon rhai ato pan na fuasai ef ei hun mewn hwyl i gyflawni'r gorchwyl. Nid wyf yn gyfarwydd iawn a manylion hanes ei fywyd. Y mae rhai disgynyddion a pherthynasau iddo yn byw yng nghymdogaeth Llanwnen yn awr. Y mae wyres iddo yn byw ym Mhenynant ger Alltyplaca—yn hir gystuddiog. Nai fab brawd iddo oedd y diweddar John Daniel o'r Glynyrhelyg (Abercerdinen, y rhan olaf o'i fywyd) ; a nith ferch brawd iddo ydyw Mrs. Lewis, Rhydaman. Bu John Daniel yn adnabyddus iawn i nifer luosog o Undodiaid y "darn" ddiwedd y 19eg a dechreu'r 20fed ganrif. Arferai fynychu Capelygroes bob pythefnos pan yng Nglynyrhelyg (yn amlach weithiau), ac yn gyson wedi ymneilltuo o hono o'r fferm. Bu farw yn Abercerdinen yn 1921. Y mae Mrs. Lewis yn fyw eto, ac mor gadarn yn y ffydd ag erioed. Un o'r hen gewri Undodaidd ydyw ; ac nid heb berygl i'w gymeriad iawnffyddol yr anturia neb ymosod arni. Y mae llawer yn Rhydaman wedi profi blas ei fflangell cyn hyn. Y mae cydnabod ei hun yn Undodwr neu'n Undodwraig mewn lle fel Rhydaman yn gofyn cryn fesur o wroldeb—mwy o wroldeb o gryn dipyn nag a fedd ambell un.

Hi a'i merch yn Felinban ydyw unig gynrychiolwyr y teulu lluosog hwn yng Nghapelygroes yn awr. Dyn o wybodaeth eang oedd Dafydd Daniel, o sefyllfa fydol uwch na'r cyffredin, a llanwai le pwysig ym mywyd y cylch yr arferai droi ynddo. Yr oedd, hefyd, yn siaradwr cyhoeddus. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Capel-y-groes; am ran fawr o'i fywyd yn flaenor—ac yn ben blaenor. Llanwai le pregethwr cynorthwyol i Mr. Thomas; ac i Mr. Davies o'i flaen yn ddiau. Arferai eistedd yn y cor mawr ac yn y gadair Fawr. Y mae'r gadair fawr mewn bod o hyd, er mai'r ysgoldy yw ei lle yn awr, ac nid y cor mawr; bu raid iddi ildio'i lle i'w harddach pan adeiladwyd y capel presennol. Nid byth yr eisteddaf yn yr hen gadair fawr heb gofio am Dafydd Daniel ac eraill a fu'n eistedd ynddi. Dywedir y cyfrifai'r diweddar Kilsby Jones gadair freichiau yn ei gapel yn Llandrindod yn eithriadol gysegredig am yr rheswm yr arferai Wilym Hiraethog eistedd ynddi pan ai yno i addoli adeg ei wyliau. "Bu *dyn* yn eistedd yn honna." arferai ddyweyd; ac ni chai neb eistedd ynddi oddieithr eu bod yn ffafrynnau eithriadol. Cefais innau'r fraint, ychydig flynyddoedd yn ol, o eistedd mewn cadair a hanes cysegredig iddi—hen gadair Iolo Morgannwg yn Nhrecefel ger Tregaron—cadair a ddarparwyd iddo gan Johnes o'r Hafod-Ychtryd, i'r hen fardd i eistedd a chysgu ynddi pan ymwelai a'i balas*; a theimlwn fy mod yn eistedd ar gadair eithriadol gysegredig; a braidd na ddychmygwn fod ysbryd yr hen fardd yn fy ymyl, yn erchi imi godi oddiarni. Ond—i ddychwelyd at y testun. Weithiau, nid yn aml, rhwystrid Mr. Thomas rhag dod o hono i Gapelygroes. Gyda llaw, synnaf iddo ddod mor ddifwlch o reolaidd am dymor mor hir—37 o flynyddoedd. Y mae'r pellter rhwng y ddau gapel—Pantydefaid a Chapel-y-groes—oddeutu wyth milltir; ac yr oedd yn agos i dair milltir rhwng Cribor a Phantydefaid. Cyfrifaf y teithiau o leiaf rhyw ddwyfilltir ar hugain bob Sul. Pan ystyriaf hyn, rhyfedd ydyw iddo ddod i Gapelygroes mor rheolaidd ag y gwnaeth. Pan fethodd a dod, cymerid ei le gan Ddafydd Daniel. Yn y prynhawn y digwyddai hyn ymron yn ddieithriad. Anfynych y methai a dod yn y bore. Yn y bore yr oedd y cynulliad yn lluosog; ond yn brin yn y prynhawn. Y mae'r drefn wedi newid erbyn hyn; prin yn y bore, a lluosog y prynhawn yw'r drefn yn awr (mor lluosog ag y gellir disgwyl, o leiaf).

Un peth a gofiaf am Ddafydd Daniel fel pregethwr ydyw—ei fod yn hoff o ddewis dameg yr hedyn mwstard fel testun. Gwnai hynny yn aml iawn. Math ar red-esboniad o'r ddameg a fyddai ei bregeth y troion hyn; a diddorol iawn ydoedd; braidd na thybiwn y gwelwn y pren mwstard yn tyfu'n raddol o flaen fy llygaid.

Darfu imi ddysgu cynnwys y ddameg o'i glywed fel hyn yn siarad arni'n achlysurol. Dim ond un bai a berthynai iddo fel pregethwr yn fy marn blentynaidd i, sef, ei fod yn dueddol i bara'n hir—yn rhy hir i'm boddio i. Nid oeddwn yn hoff o bregethau hir bryd hynny—pa blentyn sy'n hoff ohonynt? Ac nid wyf yn hoff o honynt heddiw. Dyn o gymeriad ardderchog ydoedd: dyna'r farn gyffredin am dano. Ond ni lwyddais i ddod i gyffyrddiad mor agos ag ef a rhai o'r cymeriadau eraill a enwais. Perthynai iddo rywbeth—beth ydoedd, ni fedraf ddyweyd—a dueddai i'n cadw ni blant dipyn ymhell oddiwrtho—a greai rywfath ar agendor rhyngom ag ef na allem yn hawdd ei groesi, a dod yn eofn arno.

Ychydig iawn o'r genhedlaeth bresennol sydd yn ei gofio. Gorffwys ei lwch ym mynwent Eglwys Llanwnen.

D.E.

(I'w BARHAU).

(*A oes sicrwydd o hyn? Clywais ameu'r traddodiad gan un ddylasai wybod. Pwy fedr dorri'r ddadl?—GOL.)

Cartrefi'r Enwad.

I.

FFOSYFFIN.

NID oes dim yn hoffach gennyf i na rhoi tro am hen gartrefi y sy'n annwyl gennym er mwyn y dyddiau gynt, ac er bod bugeiliaid "newydd ar yr hen fynyddoedd hyn" chwedl Ceiriog, teimlaf fod gennym hawl arnynt oherwydd rhywun a anwyd ac a fu'n chwarae yma. Y mae'n bleser gennyf droi i ryw hen ardd yng nghornel cae ac er fod pob carreg o'r hen dy wedi mynd, yr wyf yn caru dychmygu yr hen aelwyd a'r llaw a fu'n plannu'r "border bach." Credaf ei bod yn haws darlunio cymeriad dyn wedi gweld ei gartref a cherdded y llwybrau a gerddodd gynt. Y mae gan fryn a dôl, afon ac ardal, hanes a thraddodiad rywbeth i'w wneuthur a chymeriad dyn. Y mae peth megis o'r dyn yn hofran uwch y fan o hyd a chredaf ei bod yn haws deall emynau Pantycelyn a'r "hen Ann" o weld y golygfeydd a ddylanwadodd arnynt. Tebig ydyw wrth geisio dod o hyd i gymeriad dyn, y mae'n werth rhoi tro i'r man y'i ganwyd.

Ni wn i pa sawl un o'm darllenwyr a ŵyr am yr hewl hirgul a gwastad y sy'n troi a throsi fel neidr rhwng Llanbedr a Chellan a Llanddewi-brefi, a hwyrach mai ar hyd y lôn hon y cerddai'r mynach slawer dydd wrth feddwl am ysgrifennu Hen Lyfr Aner Llanddewi-brefi. Ar brynhawnddydd tawel canol haf medrid clywed o Ffosyffin yr ych yn brefu a'i lais garw a chras yn diaspedain yng nghymydogaeth Llanddewi. Heb fod nepell y mae'r Ddolgam ar dir Coedmorfach lle bu Vavasor Powell yn pregethu yn 1642. Yr wyf wedi cerdded yr hen hewl gannoedd o weithiau yn ystod y tair blynedd ar ddeg diweddaf ac ambell nos Sul hwyr a thywyll yr oedd fy meddwl yn creu llawer i Vavasor Powell o gysgodion y gwyll.

Ni wn i am lawer prydferthach golygfa nag edrych dros eich ysgwydd chwith i gyfeiriad Llanbedr, yr hen afon yn arogldarthu yn y glyn a chwithau'n gweld drwy'r tarth ddigon i ddangos brydferthed ydyw'r dref. Y mae rhamant yn cerdded drwy'r fro. Ar y llechwedd ar y chwith y mae Castell Buged, wedi cael ei enw oddiwrth hen farll o Norddman ac yn nwch i'r lan y ceir y Roman Camp.

Sua Teifi ei channig felys drwy'r dyffryn gan dario hwnt ac yma a mynd ar draws ac ar hyd fel pe bae'n anfoddlon gadael. Nid yw'n brysio byth yma ac yn y gaeaf y mae'n chware tric a mi gan geisio fy atal i gadw fy nghyhoeddiad fore Sul yng Nghaeronnen. Yn yr haf fe welir y brithyll yn chware yn ei dwfr arian a'r eog yntau'n ddioglyd ar waelod ei phyllau. Ar y dde y mae Treherbert, rhibyn hir o dai ac enw'r pentref wedi'i roddi iddo gan hen Undodwr didwyll Herbert Jones, Coedmorfawr a'i goffa'n wynfydedig gennym am mai ef a welodd eisiau Bethel arnom yn Nhy'n-rhewl cyn meddwl am Frondeifi. Yn nwch i fyny y ceir Cwmbedw, Hen Gartref y Parchn. Evan Davies a John Jeremy, Glanhathren a roes ei enw i'r annwyl Hathren Davies, y ddwy Felindre, ac wedi croesi o Sir Gaerfyrddin i Sir Aberteifi rhyw hanner y ffordd rhwng Llanbedr a Chellan fe geir dwy hewl yn fforchogi un yn mynd yn ei blaen i Gellan a'r llall yn troi am Goedmor Hall ac i fyny heibio'r Wern, hen enw annwyl i Gaeronnen a'r ddwy Lanlas. Rhyw led cae megis o fforchog y ddwy hewl ar lecyn plaen a phrydferth y saif Ffosyffin a hwyrach y rhoid y'i enw iddo oherwydd ei godi nid yn unig ar ffin dwy Sir ond ar ffin dau blwyf, Cellan a Phencarreg.

Ffermdy cysurus bellach yw Ffosyffin a thy fferm gwell na'i gilydd gynt ond odid, er y mae'n amheus a oes carreg ar garreg o'r hen

adeilad yn aros a anwylem ni. Saif ar gnwc neu godiad tir uwchben Teifi a'i drem megis ar Lanbedr ac fel pe buasai yntau fel y teulu gynt am gefnu ar Gacronnen rhyw filltir a hanner yn uwch i'r lan. Ni wn i am ardal a chynifer o'i henwau ynghlwm a hanes Anghydffurfiaeth yng Nghymru.

* * *

Tua chanol y ddeunawfed ganrif fe anwyd yn Esger Inglis Llanwnen faban i Dafydd Davies a oedd yn byw yno o'r enw Timothy neu Timotheus. Ni chafodd y plentyn ond rhyw fis o ysgol erioed. Ymaelododd yn Alltyblaca yn dair ar ddeg oed a dysgodd grefft crydd, ond wedi sefydlu Capelygroes symudodd yno. Ymbriododd yn ieuanc a merch Anthony Thomas, Lanlas, diacon yng Nghae'ronnen. Wedi priodi aeth y par ifanc i fyw i Garcoed ac oddiyno i Ffosyffin. Ni wn faint o lenor ydoedd Timothy Davies ac yntau heb gael ond mis o Ysgol ond cyhoeddodd un llyfr,—

" Ychydig
o
Fyfyrdodau ar Grefydd
Gan
Timotheus Dafydd, Masnachwr Llewyg y Blaidd (Hops)
O Blwyf Cellan yn Sir Aberteifi.
Hefyd ychydig Sylwadau ar Falchder a Gostyngreiddrwydd.
Profwch bob peth a deliwch yr hyn sydd dda. (*Paul*).
Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Evans, 1812."

Yn 1813, bu farw yn wr trigain oed, gan adael un mab Anthon Davies yn y Coedmor (a'i ferch ef ydoedd gwraig y Parch. William Rees, Rhydygwin), y llall ond odid ar y pryd yn paratoi ar gyfer y Coleg dan Datis Castellhywel a merch Mrs. Jemima Williams "Jem Ffosyffin" gartref yno a cheir cofnod o'i marw mewn hen YMOFYNNYDD "29ain o Ragfyr 1867 yn 74 mlwydd oed, yn nhy ei merch- Rhydygwin, Llanerwys, ger Llanbedr, Jemima Williams yr hon a adwaenid wrth yr enw "Jem Ffosyffin." Cafodd ei geni yn Ffosyffin, Cellan. Yr oedd ei thad yn un o'r Undodwyr cyntaf yng nghymydogaeth Llanbedr. Gwelsom lyfryn rai blynyddau yn ol yn yr hwn yr oedd hanes Cwrdd Cwarterol a gynhaliwyd yn ei dy yn Ffosyffin. Yn y cyfarfod hwnnw yr oedd yn bresennol y Parch. Thomas Evans, Glyn Cothi, Dafydd Jencin Rees o Lloyd Jack, Iolo Morganwg ac amryw eraill."

Ni wn i pwy yw awdur y marwgof hwn. Hwyrach mai y Parch. David Evans, Maesymeillion ydoedd ond hoffwn innau gael cip

ar yr hen lyfryn ond ble mae heddiw. Y mae'n ddiddorol hefyd dal ar yr awgrym gwir a geir yn y marwgof ei fod yn un o'r Undodwyr cyntaf yn ardal Llanbedr. Wedi marw'r tad, yr oedd ei fab Anthon Davies, Coemor a Jonathan ei fab yntau yn mynychu'r addoliad yng Nghapelygroes am nad oedd Caeronnen yr adeg hon yn ddigon Undodaidd iddynt.

Beth bynnag am hyn dengys hyn benderfyniad y teulu. Yn 1814 derbyniwyd yr ail fab—John—i Goleg Caerfyrddin ac yntau wedi ei eni ond odid yn 1796. Wedi gadael y Coleg yn 1818, derbyniodd alwad i Gapelygroes ac Ystrad a bu yma hyd 1824 gan gadw ysgol yng Nghellan. Nid oes nemor ddim o'i hanes ar gael y dyddiau hyn a naturiol credu fod amser y gweinidog ieuanc yn brin rhwng yr eglwysi a'r ysgol, a hwyrach yr arian yn brinnach. Ni wyddom pam y gadawodd ei gylch ymhen rhyw chwe mlynedd ond fe'i ceir yn Weinidog Castellnedd yn 1825 yn fawr ei barch dros dro ac yn cadw ysgol ond odid yno. Y mae'n drist darllain hanes cynulleidfa Castellnedd. Dechreuodd yn addawol dan fab Dafis Castellhywel ond gorfu iddo roi ei gofal i fyny oherwydd pallu o'i feddwl. Dyma ail gynnyg a gweinidog o'r hen Sir eto, a hwnnw'n addawol.

Beth bynnag erbyn 1843 y mae'r gynulleidfa wedi'i adael i beidio dychwelyd mwy. Gwerthu llewyg y blaidd (hops) oedd ei dad ond sicr fod y mab wedi mynd gam ymhellach, yr oedd yn hoffi blas eu trwyth a hynny a fu'n godwm iddo. Bob tro y pasiaf Ffosyffin cofiaf am drasiedi bywyd y Parch. John Davies o Gastell Nedd. Gwnawd llawer cais i'w godi a cheir ef yn gwasanaethu yn un o gyfarfodydd yr enwad tua 1852 ond i ddim pwrpas. Yr oedd yn gaethwas i'w ffys a bu farw mewn tlodi ar y 29 o Ionor, 1865 a chladdwyd ef yng Nghadoxton gerllaw Castell Nedd.

Nid son yr wyf er mwyn son am wendid neb, ond trueni anghofio ymdrech teulu cyfan o blaid crefydd rydd oherwydd i un o'r teulu a hwnnw'n weinidog gyda llaw dripio.

Y mae'r teulu wedi mynd. Y mae'r hen gartref yn nwylo arall, ond fe erys yr ardal a Theifi. Y mae crefydd rydd yn fyw yn y fro a dylanwad y teulu i'w weld megis ym mywyd Brondeifi bellach. Y mae amser yn blotio allan lawer teulu ac enw, a tho'n codi heb eu hadnabod ond pan ddadlennir ryw ddydd hanes yr enwad yn nyffryn Teifi fe ir yno lawer enw o'r hen ardal ac yn eu plith enw

Symposium.

YN Yr Ymofynnydd diweddaf, gofynnais am *griticism* ac addewid ar gyfer Ymofynnydd 1928, a rhof yr atebion er i'r darllenwyr farnu.

Awelon,
Llandysul, *Nadolig*, 1927.

Annwyl Olygydd,—

Ni fedrwn beidio ag ysgrifennu a chennyf brofiad o ryw chwarter canrif ar olygu. Nid pleser digymysg yw ei ysgrifennu heb help neb ohonom. Yr wyf yn orbrysur, a chyda gwaith yr eglwysi a'r Sir nid oes gennyf fawr o hamdden. Gwyddoch hefyd fod y Llyfr Emynau newydd yn peri cryn drafferth ond gan imi fod yn un o'r tystion o Sir Aberteifi o flaen y Comisiwn credaf y medrwn roi ysgrif neu ddwy i chwi ar Adroddiad y pwyllgor—"Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd."

Gan ddymuno Nadolig Llawen i'r Ymofynnydd,

Yn frawdol,
T. A. Thomas.

* * *

Llwynmarles,
Llandysul, *Nadolig*, 1927.

Annwyl Olygydd,—

Yr wyf yng nghanol fy *Nghrusade* dros werin fy ardal ac y mae fy amser yn brin rhwng popeth. Ni fedraf awgrymu nemor i chwi ond gan fy mod wedi byw am dros ugain mlynedd yng ngwlad Gwilym Marles a chrud Undodiaeth yn Nghymru ac wedi crynhoi llawer traddodiad a ffaith, hwyrach a fuasai o ddiddordeb cyffredin fe'u hanfonaf rhag blaen i chwi ynghyd a phennod neu ddwy ar Hiwmor Daniel Owen.

Yr eiddoch fel bob amser,
E. O. Jenkins.

* * *

Cwmiago,
Llanybyther, *Nadolig*, 1927.

Annwyl Mr. Williams,—

Nid wyf yn credu fawr mewn addewidion ac yr wyf wedi ysgrifennu i'r Ymofynnydd cyn geni'r Golygydd presennol, ac a chael canmol fy hun yr ydwyf wedi dal yn weddol ffyddlon ar hyd

y blynyddoedd. Yr wyf yr hynaf o'r brodyr yng Nghymru a cheisiaf alw yr hen gymeriadau annwyl a adwaenwn gynt i gof gan eu darlunio i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd a chewch yn amgaeedig yr ysgrif gyntaf gyda nymuniadau goreu am y Nadolig.

Yr eiddoch,

D.E.

* * *

Ysgol y Cyngor,

Cwrtnewydd, *Nadolig*, 1927.

Olygydd Annwyl,—

Addewais i chwi llynedd bwt o gân yn awr ac eilwaith a chedwais fy addewid ddwy waith neu dair. Ysgrifennais hefyd ar Ifan Thomas Rees o Lanarth ac ysgrifennwn eto rhyw frasluniau o Wilym Gwenog. Davit a llu eraill o feirdd yr hen fro a minnau'n gwybod y buasent yn dderbyniol i'r Ymofynnydd. Awgrymais hefyd y buasai'n ddiddorol cael atgofion Henafgwyr o'r slawer dydd ond ni chafwyd ond "Cynhaeaf Sir Henffordd." Gobeithio y daw eraill gyda'r flwyddyn newydd.

Yr eiddoch yn gywir,

Cledlyn.

* * *

Aberdar, *Nadolig*, 1927.

Annwyl Gyfaill,—

Gwyddoch ein bod yma yn brysur ofnatsan a Chwmni Drama Trecynon wedi cyrraedd *final* yn y National Final of the British Drama League's National Community Festival for the Lord Howard De Walden's Cup er penderfynu pwy sydd i gynrychioli Prydain Fawr yn yr ornest ryngwladwriaethol yn New York. Amgaeaf i chwi y Llwyfan, Cylchgrawn newydd Undeb y Ddrama Gymreig. Os digwydd inni lwyddo a chael trip i New York ysgrifennaf i chwi erthyglau yn dangos y golled i grefydd oherwydd i'r eglwys ollwng gafael o'r Ddrama a'i chysylltiad a'r eglwys gynt yn yr hen Fystery Plays. Caf hamdden ar y trip i'w hysgrifennu.

Yr eiddoch mewn gobaith,

E. R. Dennis.

* * *

Dolgerdd,

Talgarreg, *Rhag.* 25, 1927.

Annwyl Gyfaill,—

Meddyliais ysgrifennu droion i chwi ar y "New Thought Movement" a "Theosophy." Ni wn fod nemor o'ch darllenwyr yn gwybod dim am y mudiadau hyn a chredaf y gwnae les i ben a chalon llawer un i wybod am "Sandhana" Tagore, am ysgrifeniadau Mrs. Besant a llu eraill. Credaf ei bod yn ddyledswydd arnaf i ddwyn y goleuni hwn i arall.

Yr eiddoch yn gyfeillgar,

D. Jones.

* * *

Henllys,

Felinfach, *Nadolig*, 1927.

Annwyl Olygydd,—

Disgwyliais am orchymyn ond ni chefais un. Credaf y dylasem drafod pynciau'r dydd megis uno'r ddwy Gymdeithas yn Llundain a materion cyffelyb. Nid wyf yn sicr na buasai ambell bennod ar Athroniaeth yn dderbyniol. Fe'u cewch yn ystod y flwyddyn am fy mod ar hyn wedi cwpla ag Ymddiriedolwyr Cwmwrdu wedi llawer blwyddyn.

Yn bur.

D. Conwil Evans.

* * *

Y Coleg,

Caerfyrddin, *Nadolig* 1927.,

Annwyl Mr. Williams,—

Ymddiheuraf na buaswn wedi eich cofio'n amlach, ond rhaid diwygio. Credaf y buasai gwibdaith ym myd y llyfrau yn ddiddorol ac adeiladol i ieuenetid ein heglwysi gan alw eu sylw at lyfrau newydd a gyhoeddir ynghyd ag awgrym am eu cynnwys. Pe ceid pennod felly yn awr ac eilwaith credaf y gwnai les.

Gan ddymuno i chwi Nadolig llawen,

J. Park Davies.

* * *

Aberdar,

Nadolig, 1927.

F'annwyl Gyfaill,—

Fel Llywydd y Gymdeithas ni fedraf beidio ag anfon fy nymuniadau goreu i chwi y Nadolig hwn. Ni chaniata amser ac iechyd imi wneuthur a garwn ond gwyddoch fy mod a'm hysgwydd dan

y gwaith o gael Yr Ymofynnydd yn rhydd o ddyled ac i gael y Tair Mil Punnau fel crouſa'r Myfyrwyr. Rhaid imi gywiro fy addewid hefyd i ymweled a holl eglwysi Cymraeg Cymru cyn yr Haf a rhof i chwi fy argraffiadau wedi'r ymweliad.

Rhaid i chwi aros hyd hynny.

Yr eiddoch yn bur,

D. Tyssul Davies.

* * *

A minnau'n y ty " Boxing Day " yn pendroni uwchben Ymofynnydd Ionor daeth *rhywun* ataf a chan edrych dros fy ysgwydd gofynnodd yn syn,—" Pryd cawsoch chwi'r atebion hyn ? "

Atebais innau'n ddifeddwl ddigon " Heddiw."

" Amhosibl," meddai. " oherwydd nid oes lythyron ar Foxing Day."

Meddyliais innau ennyd cyn ateb gan edrych arni. " Yr ych yn dweyd y gwir. Ni wrandawodd cymaint ag un o'm darllenwyr arnaf ac nid oedd dim i wneuthur gan fod pobun mor brysur neu *ddihitio* ond ysgrifennu a ddylasent hwy fod wedi anfon."

" Beth ? " gofynnodd eilwaith ag anghredu yn ei llais " Ai ni chawsoch ddim ? "

Nid atebais. Ni fedrwn ateb ond adroddais wrthi englyn Watcyn Wyn a Gwydderig er codi ei chalon,—

" Hen hosan a'i choes yn eisie—a'i brig
Heb erioed ei dechre,
A'i throed heb bwyth o'r ede—
Hynny yw *dim* onide."

Dyna a gefais innau, a'i ysgrifennu mewn llythyren fras—

" DIM ! "

Diolch i bawb !

Fe wyddoch a garwn gael oddiwrthych. a hwyrach y bydd y dull diofal hwn o'i fynegi yn apelio atoch, ac y gwelwch hiwmor y peth.

Gobeithio y mabwysiada pob un awgrym y llythyr y sydd ar ei enw ac y caf innau'r erthyglau oddiwrthych yn ystod y flwyddyn.

Y Golygydd.

Urdd y Benywod.

At y Canghennau Cymraeg.

(*Trwy garedigrwydd y Golygydd rhoir paragraff o Newyddion Yr Urdd bob mis. Gobeithir felly y daw ein cyd-aelodau Cymraeg i gyfforddiad agosach a'u chwiorydd o Loegr nag y bu'n bosibl iddynt hyd yn hyn.*—H. Brooke Herford.)

Newyddion Yr Urdd.

ANNERCH BLWYDDYN NEWYDD Y LLYWYDD.

WRTH ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'm cyd-aelodau a chyfeillion Urdd y Benywod, ni wnaf hynyna'n ffurfiol yn unig ond mewn hyder y dwg y flwyddyn newydd gyda hi ymgysegriad i ddelfrydau a gwaith yr Urdd. Eisoes y mae'r Urdd wedi gwneuthur llawer er tynnu benywod ein heglwysi at ei gilydd, ac y mae wedi bod yn foddion i ffurfio llawer cyfeillgarwch gan ddwyn cydymdeimlad ac ysbryd cyfeillgar i'r unig. Er bod llawer wedi ei wneuthur, erys llawer i'w wneuthur. Y mae eto ormod o eglwysi heb ganghennau a hyd yn oed lle ceir canghennau ni wneir y defnydd priodol bob amser o'r Frawdoliaeth dros y rhai y sy'n gadael eu mam eglwys, neu o'r moddion eraill sy'n agored er dwyn yr aelodau i gysylltiad a'r gyfundrefn fwy. Bydded ein penderfyniad blwyddyn newydd fod—' y cymerwn ni ddiddordeb nid yn unig yn ein cangen leol a'n heglwys ond yng ngwaith eangach yr Urdd ac yn ein Cymdeithas o Eglwysi Rhydd'."

Ruth Nettleford.

Rhyngwladwriaethol.

Ffrainc. Mme. Loyson's Society " L'Enfant de France."

Y mae Mme. Loyson newydd gyhoeddi Adroddiad o'i gwaith (L'Enfant de France) ym mysg pentrefi wedi'u hail-adeiladu yn y rhanbarthau a ddinistriwyd yn Ffrainc. Hi oedd y gyntaf i sylweddoli nad oedd yn ddigon wrth ad-drefnu pentref i ailgodi'r tai. Rhaid oedd ad-drefnu'r bywyd cymdeithasol gan galonogi pob gweithgarwch moesol a meddyliol. Er cynorthwyo yn y gwaith hwn, rhoes Mme. Loyson y dasg iddi hun o gael llyfrfaoedd bychain ym mhob ysgol y pentref ac y mae ganddi yn awr 116 o lyfrfaoedd, 17 wedi eu hagor eleni. Fe'u rhoddwyd gan gyfeillion o'r Amerig, yn bennaf drwy'r *General Alliance* a bron bob amser er cof am ryw

fachgen dewr o'r Amerig a frwydrodd ac a syrthiodd yn agos i'r pentref yn cael y rhodd. Gelwir y Llyfrfa ar ei enw ac yn aml y mae gan yr ysgol ryw seremoni fach er ei gofio ar benblwydd ei farw a gesyd y plant flodau ar ei fedd. Y mae'n syniad prydferth, ac y mae'n iawn i'r dynion ieuainc hyn a roes eu bywydau er achub y plant hyn gael eu cofio ganddynt. Dyma engraifft nodweddiadol. "Ym Mareuil-en Dole, rhowd y llyfrfa gan Mrs. Atwood er cof am ei mab ac y mae newydd anfon i bob plentyn yn yr ysgol rhyw bilyn gwresog. Bob bore saif y plant a'u llygaid ar ddarlun Is-Swyddog Atwood." Ysgrifenna Mme. Loyson i ddiweddu fel hyn—

"Yr wyf yn sier y sylweddolwch foddion cryfed i addysgu'r bobl y sy'n ein dwylo drwy roddion y llyfrfaoedd hyn . . . . lle mae'r llyfrau i gyd. gan ddechreu gyda'r Beibl yn cael eu dewis er meithrin cariad at deulu a chartref a gwlad, ac o bopeth sy'n brydferth a da. yn ogystal ag agor gorwelion newydd ar yr holl fyd drwy ddewis doeth o chwedlau pob cenedl ag ysbrydoliaeth ynddynt wedi'u hysgrifennu gan awduron pob cenedl.

Gair olaf yn awr parthed y Nadolig. Y llynedd cawsom roddion i'n galluogi i roi hoddion i blant pump oed ein hysgolion. Gobeithiwn fedru gwneuthur rhagor eleni. Y mae gennym nifer o ardaloedd tlawd lle y buasai rhodd Nadolig yn dwyn cymaint o lawenydd i'r plant."

Anfoner pob cyfraniad yn unionsyth i—

Mme. Paul-Hyacinthe Loyson, 110 Rue du Bac, Paris.

Marwgofion.

Sadwrn, Awst 20, yn 63 mlwydd oed, Mary, annwyl wraig John Thomas, Heol y Graig, Trebanos. Fel y bu hanes llawer o'i blaen, dygpwyd hi ymaith yn dra sydyn, er na chystuddiwyd mohoni ond am ychydig wythnosau. Nid wyf yn sier a ydyw poen yn byrhau oes dyn ar y ddaear, ond dywedir heddyw i'r ymadawedig ddioddef yn ddirfawr oddiwrth boen yn y pen. Gellir yn hawdd iawn gydymdeimlo a hi o dan faich mor drwm. Ond rwan mae'n ddihangol, nid ar un poen, ond ar bob poen arall a allasai ei goddiweddid hi. Yr oedd bob amser yn fam a gwraig barod iawn i wneud cymwynas, a gwnaeth hynny dro ar ol tro, fel y tystia'r gymydogaeth. Bu yn aelod yn y Graig a Gellionnen flynyddoedd lawer, a mynychai bob amser tra gallai. Boed i aden warcheidiol y Tad nefol fod yn do diddos i'r tad a'r plant sydd ar ol; ac i'r chwiorydd a'r brodyr y sydd wedi colli chwaer ddi-dwyll a da. Goroesed eto ym mywydau pawb bob rhinwedd o'i heiddo. Claddwyd hi y Mercher dilynol wrth Gellionnen. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y gweinidog—y Parch. D. G. Rees; a chynorthwywyd gan y Parch. D. Johns, Gosen.

Tachwedd 13, yn 79 mlwydd oed, bu farw James Rees, Gwylfa, Cwrtnewydd (gynt o Dy'n Lón) wedi cystudd byr iawn. Ni bu namyn deuddydd neu dri yn wael. Claf-ychodd yn sydyn ac awd ag ef i Aberystwyth, ond bu farw ymhen ychydig oriau. Dyn tawel, siriol a charedig ydoedd, yn fawr ei barch yn yr ardal ac iddo le cynnes yng nghalon ei gydnabod. Amaethwr ydoedd ac yr oedd wrth ei fodd wrth drin ei fferm neu'i dyddyn. Cerddodd yn selog y blynyddoedd olaf i Gapelybryn ac fe welir ei le'n wag. Y dydd Gwener dilynol hebryngwyd ei weddillion marwol i fynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd yn y ty ac ar lan y bedd gan y Parch. E. Glyn Edwards a phregethwyd ei bregeth goffa yn y Capel gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, ac yn ol tystiolaeth pawb yr oedd "ysbryd rhagorol ynddo ef." Gadawodd briod yn unig i alaru am gymar bywyd, heblaw perthynasau ereill. Bydded iddynt edrych at yr hwn sy'n gosod yr unig mewn teulu ond yn Dduw hawdd ei gael yn holl gyfyngderau bywyd.

Tachwedd 14, ar ol ychydig ddyddiau o achwyn, Evan Evans, Penlon Cwrws, Henllan yn 79 oed. Claddwyd y Gwener dilynol ym mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. J. Davies, B.A., Bangor Teifi a E. O. Jenkins. Bu'r ymadawedig byw am flynyddoedd lawer yn Gwaralltfardre, ger Bwlchyfadfa. Tra yma gwelodd lawer o dywydd garw ar gyfrif afiechyd mawr yn y teulu ac oddiyma hebryngodd weddillion ei briod a rhai o'i blant i fynwent y Bwlch. Credwn fod mynwent y lle hwn yn agos iawn at ei galon. Perchid ef yn fawr gan ei gydnabod. Yr oedd mor ddiddrwg a baban ac yn neilldu-ol barod i gymwynas. Yr oedd yn hoff iawn o gwmni a threuliodd gannoedd o oriau ar garnau coed gerllaw'r hen gapel yn adrodd straeon Cafodd angladd parchus iawn—hawdd oedd canfod fod iddo barch yn ardal Henllan megis yn ardal y Bwlch. Ers blynyddoedd trigai gyda mab iddo a merch-ynghyfraith yn Penlon Cwrws. Gadawodd mewn galar ferch, dau fab, chwaer a llawer o berthynasau ereill.

Ar y 19eg o Dachwedd, yn 70 oed, bu farw Mary Jenkins, Emlyn, Cribyn, ar ol dioddef o honi gystudd maith a chaled iawn. Gadawodd mewn hiraeth ar ei hol un mab ac un merch, un chwaer, a nifer luosog o berthynasau agos eraill. Benyw diniwed, diddrwg ydoedd, a hoffid hi yn fawr oblegid hynny gan gylch ei hadnabyddiaeth. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capel-y-groes dydd Mawrth dilynol, a daeth nifer luosog ynghyd i dalu iddi'r gymwynas olaf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

Ar y 23ain o Dachwedd, yn 82 oed, bu farw Hannah Evans, yn nhy eu merch yn Araul, Llanwnen, gyda'r hon yr oedd wedi cartrefu er's amryw flynyddoedd, a chan yr hon y cafodd bob tynerwch ei henoed. Collodd ei phriod yn gynnar yn eu bywyd priodasol—dros hanner can mlynedd yn ol. Merch ydoedd i'r diweddar John a Margaret Hughes o Dynygwndwn. O deulu lluosog Tynygwndwn, nid oes yn aros yn awr ond dau—Mr. D. Hughes, Ffynnonoer (Rhydyfydr gynt) a Mrs. Jones, Resolven. Gadawodd dair merch, brawd a chwaer, nifer luosog o wyrion, a llu o berthynasau eraill, ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, gyda chynorthwy y Parch. Conwil Evans.

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth Mrs. D. O. Evans, 11, Newcastle Street, Merthyr, yn 63 oed. Bu farw Rhagfyr 3edd a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus ar y Cefn, dydd Mercher, Rhagfyr 7. Merch Jenkin a Margaret Llewelyn ydoedd a'r olaf o'r teulu bellach. Yr oedd ganddi gysylltiad felly a'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar, lle y bu hi yn ffyddlon iawn pan yn ferch ieuanc, a pharhaodd felly wedi symud i Ferthyr. Sonir gan bawb am dani fel gwraig hawddgar, dirodres a

charedig. O'i cholli mae'r bwlch yn fawr. Gedy ar ei hol briod a thri o blant mewn oed. Bu yn nychu am rai misoedd ac ni chollodd ei hawddgarwch yn y poenau mwyaf. Cyflwynwn i Mr. D. O. Evans a'r plant ein cydymdeimlad llwyraf. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Long nights and days I bore in pain,
To wait for cure, 'twas all in vain ;
But God above, He thought it best
To ease my pain and give me rest.

Sweet is the scene when virtue dies,
When sinks a virtuous soul to rest,
How mildly beam the closing eyes,
How gently heaves the expiring breast.

" Eu henwau'n perarogli sydd,
A'u hun mor dawel yw.

Tachwedd 15, yn 67 oed, Mrs. Sarah Evans, Dedwyddfa, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig yn weddw y diweddar Mr. Ben Evans, Tancoed, Llangeler, gwr adnabyddus yn ei ddydd, ac yn hannu o deulu henafol Dafis Castellhywel. Genedigol o blwyf Llanwenog ydoedd Mrs. Evans ac yn chwaer i'r Parch. John Evans, Bryn, Llanelli. Bu yn wael ei hiechyd am rai blynyddoedd a chafodd gystudd caled yn ystod y misoedd diweddaf. Bu'n ddiwyd ac ymroddgar ar hyd ei hoes. Bu'n fam ddarbodus a gofalus o'i phlant. Cyhyd ag y caniataodd ei hiechyd cyrchai'n gyson i Gapel y Graig, Llandysul. Claddwyd ei rhan farwol y dydd Sadwrn dilynol yn Llwynrhydowen, claddfa'r teulu. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. T. Thomas, Rheithor, Penboyr ; E. M. Davies, Ficer, Llandysul ; David Evans, Cribyn ac E. O. Jenkins, Llwyn. Gadawodd mewn galar dwys o'i cholli, ddwy ferch, brodyr a llawer o berthynasau eraill.

Rhagfyr 9fed, yn 17 mlwydd oed, bu farw Evan Morgan Thomas, mab Enoch a Mary Thomas, Waungoy, Llangybi, gynt o'r Cnwc, Llanybyther. Bu yn wael am tua blwyddyn. Yr oedd yn aelod o eglwys yr Annibynnwyr yn Llangybi. yn ffyddlon gyda chyfarfodydd yr eglwys, a chyda'r Ysgol Sul. Yr oedd iddo gymeriad da. Wedi iddo adael Ysgol y Cyngor aeth i'r Ysgol Sir yn Nhregaron. Dangosodd yno allu mawr i ddysgu. Bu iddo ddau frawd ac un chwaer. Bu y rhai hynny farw o'i flaen a phob un ohonynt dros ugain oed. Mae ei rieni wedi colli ei phlant i gyd erbyn hyn. Claddwyd ym mynwent Allt-yblaca prynhawn Mawrth dilynol. Pregethwyd gan y Parch. J. D. Jones, (A.), Llangybi. Heblaw ei rieni gadawodd amryw o berthynasau agos eraill mewn galar ar ei ol.

Rhagfyr 15, yn chwe mis oed wedi cystudd caled bu farw baban Rallt, Llanwenog, gan adael mam ieuainc i wylo'i chalon ar ei ol. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent eglwys Brynteg. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y capel gan Olygydd yr Ymofynnydd a gweddiwyd ar lan y bedd gan weinidog y lle.

Dydd Mercher, Rhagfyr 14eg, bu farw y brawd Morgan Jones, 35, Harriet Street, Trecynon, yn 83 oed. Efe oedd yr aelod a'r diacon henaf o'r Hen Dy Cwrdd, ac efe hefyd oedd yr olaf o'r teulu. Brawd henaf y diweddar D. Eiddil Jones ydoedd. Bu'r teulu mewn cysylltiad a'r Hen Dy Cwrdd am flynyddoedd lawer a cheir llawer nodyn ac ysgrif o waith y tad sef Eiddil Cynon yn Yr Ymofynnydd. Ni bu neb yn fwy ffyddlon i'r achos na Morgan Jones tra parhaodd ei iechyd a'i glyw, ac hyd yn oed y blynyddoedd diweddaf er nad oedd yn clywed dim o'r bregeth eto yr oedd yn mwynhau y canu. Yr oedd yn ddarllenwr eiddgar o'r Ymofynnydd ac nid oedd neb yn gwybod hanes yr enwad yn well nag ef. Bu am amser yn Drysorydd o'r Hen Dy Cwrdd ac ni chawd neb yn fwy gweithgar nag ef. Fe gyll yr eglwys aelod disglair a rhinweddol, ac fe gyll yr ardal un o'r cymeriadau goreu. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Sadwrn, Rhagfyr 17eg, a gwasanaethwyd gan y gweinidog. Cyflwynwn i'r neiaint a'r nithod ein cydymdeimlad llwyraf.

Un a fo'n iawn ei fywyd—a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd ;
Ni chyll, ni fyn ochelyd
Na dydd barn na diwedd byd.

Nodion yr Eglwysi.

HINDLEY.—Nos Fercher, Rhag. 7fed, cynhaliwyd cyfarfod yn yr ysgoldy i ddathlu'r ddegfed flwydd o sefydliad y Parch. J. Islan Jones, M.A., fel gweinidog yr Eglwys. Llywyddwyd gan Mr. E. Blundell, a gyfeiriodd mewn modd gwerthfawrogol at y gwaith a wnaed yn ystod gweinidogaeth Mr. Jones. Rhoddodd Mr. Isaac Barrow hefyd dystiolaeth i'r un perwyl. Ar ran y Pwyllgor a fu'n trefnu'r cyfarfod cyflwynodd Miss E. Guthrie i'r gweinidog *silk M.A. gown and hood*, *leather attache case*, a *cheque* i brynu llyfrau. Diolchodd y Parch. J. I. Jones i aelodau a chyfeillion yr Eglwys a'r Ysgol Sul am yr arwydd annisgwyliadwy hwn o werthfawrogiad. Pasiwyd pleidleisiau o ddiolch ar gynygiad Mr. James Platt ac eiliad Mr. D. H. Law. Aed drwy raglen o ganu gan Mrs. P. Cartwright, Miss F. Gardner, Meistri J. Blundell a J. Hindley, a pharti. Yr oedd y cynulliad yn lluosog, a threuliwyd noson ddymunol iawn.—O'r *Christian Life*. Llongyfarchiadau o'r Cribyn.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd yn Ysgoldy'r Graig, nosau Mercher, Llun a Mercher, Tachwedd 2, 21 a'r 30, a darluniau drwy'r Hudlusern gan Mr. Hopkin Jones, ac eglurhad gan y Gweinidog.

Eto, Tachwedd 13, yn y Graig, dau gwrdd adrodd a chanu tri misol yr Ysgol Sul. Y plant y prynhawn; a'r hwyr i rai mewn oed. Arweinwyr: Mri. Ben Thomas a John Hopkin. Cyfeilwyr: Mri. H. H. Morgan, W. J. Bowen a I. E. Hopkin; Misses F. Griffiths a Lily Thomas.

Eto, Rhagfyr 11, yn yr un lle, cafwyd Sul o Fawl. Dau gyfarfod, nawn a hwyr. Unawdau lleisiol ac offerynol; a'r cor, ynghyd a'r gynulleidfa yn datgan emynau detholig, gyda dau gytgan: "*And the Glory of the Lord*," a "*Lift up your Heads.*" (G. F. Handel). Cyfeiliwyd gan Mri. W. J. Bowen a I. E. Hopkin. Mri. John Hopkin a Lewis Morgan, Clydach yn llywyddu. Mr. H. H. Morgan yn arwain y Cor.

Pennillion er cof am Mrs. JANE DAVIES, Criborfawr.

(Buddugol yn Eisteddfod Llwynrhydowen).

Mae cwyn hiraethus yn y gwynt
A chrinddail Hydre'n drwch ar lawr,—
O gwympo Mam fu dalgref gynt;
Ac wyla Clettwr drist yn awr,
A'r storm yng Nghriborfawr.

O wylfa'r "*Castell*"* gwelodd fyd
Cyn iddi wybod ystyr loes;
Tan faner "Castell" brwydrodd cyd
Yn hen ryfeloedd mawr y Groes
A chastell fu drwy'i hoes.

Sirioled oedd a haul y nen,
A'i ffydd yn gwynnu'r cwmwl du;
Mor unplyg oedd ei chalon wen
A cherdded gyda Iesu bu
Tan wen y Cariad cu.

Mor union oedd a chŵys ei gwr
Sydd heddiw'n unig ger y tân;
Ei gofal fu i'w theulu'n dwr
A diwyd oedd ei dwylo glân
A'i hoes yn for o gân.

Mor "ddedwydd" fu'n yr "Esgair" bur,
Ac nid oes angen gofyn pam:
Ei chariad iddi oedd yn fur,
Ac ni ddoi'n agos gas na cham
A hithau yno'n fam.

O'r "Llwyn"† y troe am wên ei Duw
A'i sel yn gloewi dyddiau'r llawr,
Ei haelwyd oedd ei hallor fyw,
A phersawr bywyd ddaw yn awr
O galon Criborfawr.

* Castell Elwyn, Pencarreg.
† Llwynrhydowen.

"Mewn Hiraeth."

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.